
NNSS
GB non-native species secretariat

www.nonnativespecies.org

Cynhyrchwyd gan Olaf Booy, Max Wade a Vicky White o RPS

# Llysiau'r Dial



## Disgrifiad o'r Rhywogaeth

**Enw Gwyddonol:** *Fallopia japonica*
**Fe'i adwaenir hefyd fel:** Y Canclwm Siapaneaidd, Clymog Siapan, Llysiau'r Cythraul, Pysen saethwr, *Polygonum cuspidatum, Reynoutria japonica*
**Brodorol i**: Japan, Taiwan, gogledd Tsieina
**Cynefin**: Cyffredin mewn ardaloedd trefol, yn enwedig ar dir gwastraff, rheilffyrdd, ochrau ffyrdd a glannau afonydd

Lluosflwydd llysieuol tal gyda choesau yn ymdebygu i fambŵ. Yn aml yn tyfu mewn dryslwyni trwchus. Dail a choesau nodweddiadol, ffyn marw'r flwyddyn cynt yn aros gyda rhisom nodedig (coesau tebyg i wraidd o dan y ddaear) yn ein galluogi i'w adnabod gydol y flwyddyn.


Fe'i cyflwynwyd ar ddechrau'r 19eg ganrif fel planhigyn addurniadol. Bellach mae'n gyffredin ac wedi lledaenu ledled y DU. Mae'n lledaenu'n gyflym yn y gwyllt drwy ddulliau naturiol ac o ganlyniad i ymlediad gan bobl. Dim ond trwy gyfrwng lledaeniad llystyfol mae'n lledaenu, naill ai darnau trwy gyfrwng darnau o'r rhisom neu goesyn. Nid yw'n cynhyrchu hadau yn y DU. Mae ei effeithiau negyddol yn cynnwys ennill wrth gystadlu yn erbyn fflora brodorol, cyfrannu tuag at erydiad glannau afonydd a chynyddu'r tebygolrwydd o lifogydd. Gall hefyd achosi oedi a chost sylweddol i ddatblygiad yn ogystal â difrod strwythurol (gall dyfu drwy asffalt a rhai arwynebau eraill).

Mae Llysiau'r Dial wedi cael ei rhestru o dan Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban. Felly, mae'n drosedd plannu Llysiau'r Dial neu achosi iddo dyfu yn y gwyllt. O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae Llysiau'r Dial wedi'i ddosbarthu fel gwastraff a reolir.

I gael manylion y ddeddfwriaeth ewch i www.nonnativespecies.org/legislation.


## Prif Nodweddion















# Adnabod trwy'r flwyddyn

## Gwanwyn



## Haf




## Gaeaf




# Rhywogaethau Tebyg


Y rhywogaethau sydd fwyaf tebygol o gael eu drysu â Llysiau'r Dial yw'r rhai y mae'n perthyn yn agos iddynt: y Clymog Cawraidd a'i groesryw. Mae'r ddau yn gymharol anghyffredin yn y Deyrnas Unedig. Gweler y prif wahaniaethau rhyngddynt isod.




**Clymog Cawraidd**
**Anfrodorol**
**(*Fallopia sachalinensis*)**




**Llysiau'r Dial**
**I gymharu**





**Croesryw**
**Anfrodorol**
**(*Fallopia* x *bohemica*)**

Ffynhonnell: Child and Wade (2000). The Japanese Knotweed Manual

# Dosbarthiad

Eang a chyffredin ledled y Deyrnas Unedig. Ceir plâu helaeth yn nodedig yn ne-orllewin Lloegr, de Cymru a Llundain Fwyaf, fodd bynnag gellir hefyd dod o hyd i boblogaethau sydd yr un mor helaeth mewn mannau eraill.



Ffynhonnell: NBN Gateway. Edrychwch ar y wefan am y dosbarthiad cyfredol


Cyfeiriadau a llyfrau darllen pellach:

Blamey, M, Fitter, R and Fitter, A (2003) *"The Wild Flowers of Britain and Ireland. The Complete Guide to the British and Irish Flora."* A & C Black

Child, L E and Wade, P M (2000) "The Japanese Knotweed Manual". Packard

Environment Agency (2006) "*The Japanese Knotweed Code of Practice".* Environment Agency

Preston, C D, Pearman, D A and Dines, T A (editors) (2002) *"New Atlas of the British and Irish Flora".* Oxford University Press

Stace, C (1999) *"Field Flora of the British Isles".* Cambridge University Press


Ffotograffau gan: Olaf Booy, Helen Parish, Max Wade, Vicky White